

Cyngor Sir Ynys Môn

**Polisi Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith
(PUWER)**

Fersiwn 1.0 Awst 2018

Am y polisi hwn

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Rheoli Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER 1998).

Nod y polisi yw cynorthwyo gweithwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Mae'r Polisi yn cael ei gefnogi gan adnoddau ar wefan y Cyngor.

Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Medi 2016	
	Awst 2017	Dim newidiadau
	Awst 2018	Dim newidiadau
	Awst 2019	Dim newidiadau
	Ionawr 2021	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn:	Medi 2021
Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan:	Iechyd a Diogelwch

Manylion Cyswllt: 01248 752820

Health&Safety@ynysmon.gov.uk

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn mewn fformatau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd

This document is also available in English

Cynnwys

1.0 Cefndir

2.0 Dyletswyddau dan y Rheoliadau

3.0 Mesurau Ataliol yn y Gweithle

1.0 Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Rheoli Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER 1998). Nod y polisi yw cynorthwyo gweithwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau.

Dylai defnyddio'r polisi hwn ac ymgorffori ei ofynion i arferion a gweithgareddau gwaith gynorthwyo i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio gyda'i ddyletswyddau cyfreithiol dan y rheoliadau.

2.0 Dyletswyddau dan y Rheoliadau

Mae'r **Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER)** yn berthnasol i unrhyw gyfarpar gwaith, gan gynnwys cyfarpar sy'n cael ei brydlesu, ei logi neu sy'n ail-law ac i unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â chyfarpar gwaith, gan gynnwys cychwyn, stopio, defnydd rheolaidd, cludiant, trwsio, addasu, gwasanaethu a glanhau.

Mae'r polisi'n berthnasol i unrhyw beiriannau, offer, cyfarpar, tŵls neu osodiad a ddarparwyd ar gyfer eu defnyddio yn y gwaith.

Bydd dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y ddogfen hon yn helpu i sicrhau bod y cyfarpar gwaith a ddarperir gan yr awdurdod yn bodloni gofynion PUWER drwy sicrhau bod y cyfarpar:

- yn addas i'w ddefnyddio, yn addas i'r pwrpas ac yn addas i'r amodau y caiff ei ddefnyddio ynddynt;
- yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr diogel i'w ddefnyddio fel nad yw iechyd a diogelwch pobl mewn perygl;
- yn cael ei archwilio mewn amgylchiadau penodol i sicrhau ei fod, ac yn parhau i fod, yn ddiogel i'w ddefnyddio. Dylai unrhyw archwiliad gael ei gynnal gan berson cymwys (gall hyn fod yn weithiwr/wraig os oes ganddynt y cymhwysedd angenrheidiol i gyflawni'r dasg) a dylid cadw cofnod tan yr arolygiad nesaf.

Bydd hefyd o gymorth i sicrhau bod y risgiau sy'n codi yn sgil defnyddio'r cyfarpar yn cael eu dileu lle mae hynny'n bosibl neu eu rheoli gan:

- gymryd mesurau 'caledwedd' priodol, e.e. darparu gwarchodwyr addas, dyfeisiau diogelu, marciau a dyfeisiau rhybuddio, dyfeisiau rheoli system (fel botymau stopio mewn argyfwng) ac offer gwarchod personol; ac
- chymryd mesurau 'meddalwedd' priodol megis dilyn systemau gwaith diogel (e.e. sicrhau na fydd gwaith cynnal a chadw ond yn cael ei wneud pan fydd y cyfarpar wedi cael ei gau i lawr ac ati), a darparu digon o wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant.

Efallai y bydd angen defnyddio cyfuniad o'r mesurau hyn gan ddibynnu ar ofynion y gwaith, eich asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig, ac ymarferoldeb mesurau o'r fath.

Rhaid sicrhau hefyd bod gweithwyr sy'n defnyddio'r cyfarpar gwaith wedi derbyn hyfforddiant, cyfarwyddyd a gwybodaeth ddigonol ar gyfer y cyfarpar penodol.

3.0 Mesurau Ataliol yn y Gweithle

Cyfarpar gwaith

Mae sgôp 'offer gwaith' yn hynod o eang. Mae'n cynnwys bron unrhyw gyfarpar a ddefnyddir yn y gwaith, gan gynnwys:

- 'Offer bocs tŵls' fel morthwylion, cylllyll, llifiau llaw, cylllyll cigydd ac ati;
- Peiriannau fel peiriannau drilio, llifiau crwn, llungopiwyr, tryciau dympio ac ati;
- Offer megis cyfarpar labordy (llosgwyr Bunsen ac ati);
- Offer codi megis teclynnau codi, tryciau codi, llwyfannau gwaith sy'n codi, slingiau codi ac ati;
- Offer arall megis ystolion, glanhawyr dŵr dan bwysedd ac ati;
- Gosodiadau megis cyfres o beiriannau sydd wedi eu cysylltu â'i gilydd, e.e. gyda'i gilydd, er enghraifft lloc ar gyfer darparu inswleiddiad sŵn, sgaffaldiau neu offer mynediad tebyg (ac eithrio mewn achosion lle mae'r Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015 yn pennu gofynion manylach).

Prynu / Caffael

Cyn prynu neu gaffael cyfarpar gwaith, rhaid cynnal asesiad risg addas a digonol. Bydd hyn o gymorth i asesu addasrwydd unrhyw gyfarpar ar gyfer tasgau penodol, yn ei gwneud yn bosibl i leihau neu ddileu llawer o risgiau i iechyd a diogelwch ac yn sicrhau bod yr awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol o dan reoliad 3 (1) o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2002 fel y'u diwygiwyd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd aseswyr risg adrannol yn gallu cynnal eu hasesiad risg eu hunain, fodd bynnag, gyda pheiriannau lle mae peryglon cymhleth neu gyngor o ran defnyddio'r cyfarpar, dylid ceisio cyngor gan adran iechyd a diogelwch yr awdurdod.

Rhaid asesu diogelwch ac addasrwydd cyfarpar gwaith o dair agwedd:

- Ei gyfanrwydd cychwynnol
- Y lle y bydd yn cael ei ddefnyddio mewn gwirionedd
- Ei bwrpas a'r defnydd y bwriedir ei wneud ohono

Wrth ddewis a phrynu offer, mae'n rhaid ystyried yn benodol a ydyw'n briodol ar gyfer y defnydd y bwriedir ei wneud ohono o safbwynt ei ddyluniad, ei wneuthuriad neu addasiad. Dylid defnyddio cyfarpar yn unol â manylebau a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.

Yn ogystal, dylid rhoi ystyriaeth i'r prosesau, gweithdrefnau, amodau a'r amgylchedd, penodol sy'n gysylltiedig â'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r cyfarpar. Er enghraifft, nid yw offer trydanol yn addas i'w ddefnyddio mewn atmosfferau gwlyb neu fflamadwy oni bai ei fod wedi'i gynllunio ar gyfer y diben hwnnw. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylech ystyried dewis cyfarpar trydanol gwarchoddedig addas neu offer arall a gaiff eu bweru'n niwmatig neu'n hydrolog.

Yn ogystal, dylid ystyried ffactorau ergonomig. Mae'r dyluniad ergonomig yn cymryd i ystyriaeth faint a siâp y corff dynol a dylid sicrhau bod y dyluniad yn cyd-fynd â dimensiynau dynol. Gellir addasu ystum gweithredu, uchder gweithio, pellter ymestyn ac ati ddarparu ar gyfer y gweithredwr y bwriadwyd yr offer ar ei gyfer/chyfer. Ni ddylai gweithredu'r cyfarpar roi straen gormodol ar y defnyddiwr. Ni ddylid disgwyl i weithredwyr cyfarpar orfod defnyddio grym gormodol neu ymestyn y tu hwnt i'w cryfder arferol neu gyfyngiadau cyrhaeddiad corfforol i gyflawni tasgau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer gwaith sy'n hynod ailadroddus.

Cynnal a Chadw

Rhaid i bob adran sicrhau bod cyfarpar gwaith yn cael ei gynnal mewn modd sy'n golygu ei fod yn gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol a hynny drwy weithredu amserlen gynnal a chadw reolaidd. Dylai'r amserlen gydymffurfio gydag unrhyw argymhellion a wnaed gan y gwneuthurwr mewn perthynas â'r offer, e.e. pa mor aml y dylid ei iro, neu addasu cydrannau neu osod rhai newydd.

Wrth benderfynu pa mor aml y dylid cynnal a chadw'r cyfarpar, dylid cymryd i ystyriaeth:

- Dwysedd defnydd - amllder a therfynau gweithio uchaf;
- Amgylchedd gweithredu, er enghraifft, morol, yn yr awyr agored;
- Amrywiaeth y gweithrediadau - a yw'r cyfarpar yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr un dasg drwy'r amser neu a yw hyn yn newid?
- Y risg i iechyd a diogelwch petai'r cyfarpar yn ddiffygiol neu'n methu

Gall lefel a chymhlethdod y gwaith cynnal a chadw amrywio o wiriadau syml ar offer sylfaenol i raglenni integredig ar gyfer offer cymhleth. Dan unrhyw amgylchiadau, ac i fod yn effeithiol, rhaid targedau gwaith cynnal a chadw at y rhannau hynny o'r cyfarparu gwaith lle gallai methiant neu ddirywiad arwain at risgiau iechyd a diogelwch.

Ni ddylai gwaith cynnal a chadw ond gael ei wneud gan unigolion cymwys sydd â gwybodaeth a chyfarwyddyd digonol yn y gweithdrefnau a'r technegau angenrheidiol. Lle bynnag y mae hynny'n bosibl, dylai'r gwaith cynnal a chadw gael ei wneud pan mae'r cyfarpar wedi ei dynnu o unrhyw ffynhonnell bŵer.

Os yw peiriannau a chyfarpar yn cael eu llogi, rhaid cofnodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw ac archwilio. Y Cwmni Llogi fydd yn cynnal y rhain a rhaid i'r adran sy'n llogi'r cyfarpar sicrhau eu bod wedi cael eu cynnal a chadw copïau o'r holl gofnodion.

Log Cynnal a Chadw

Argymhellir bod cofnod yn cael ei gadw o unrhyw waith cynnal a chadw ar gyfarpar risg uchel. Gall log cynnal a chadw manwl ddarparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio gweithgareddau cynnal a chadw yn y dyfodol a hysbysu personél cynnal a chadw am unrhyw gamau a gymerwyd eisoes.

Archwilio

Yn ogystal ag unrhyw wiriadau a gynhelir gan weithredwyr cyn defnyddio'r cyfarpar, rhaid iddo gael ei archwilio'n ffurfiol gan berson cymwys lle mae risg ragweladwy o anaf difrifol o ganlyniad i'w osod neu ei ail-osod yn anghywir, dirywiad neu sefyllfaoedd eithriadol eraill.

Byddai archwiliadau o'r fath yn cynnwys, fel sy'n briodol, gwiriadau gweledol, gwiriadau ymarferol a phroffion rhedeg a llwythi i bwrpas diogelwch.

Fel arfer, bydd yr archwiliad trylwyr o offer penodol sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth berthnasol yn ddigonol ar gyfer yr archwiliadau uchod; h.y. archwiliad trylwyr bob chwe mis o offer a ddefnyddir ar gyfer codi pobl (e.e. offer codi neu 'hoist') fel y nodir dan y Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi. Rhaid cadw cofnod o unrhyw archwiliadau ac arolygon trylwyr.

Rhaid cofnodion pob archwiliad a'u cadw tan yr un nesaf. Dylai'r cofnodion gynnwys y canlynol: -

- gwybodaeth am fath a model y cyfarpar;
- unrhyw farc neu rif adnabod sydd arno;
- ei leoliad arferol;
- dyddiad cynnal yr archwiliad;
- pwy gynhaliodd yr archwiliad;

- unrhyw ddiffygion; a / neu
- unrhyw gamau a gymerwyd;
- i bwy yr adroddwyd am unrhyw ddiffygion;
- dyddiad gwneud unrhyw waith trwsio neu gymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Rhaid i bob Adran sicrhau nad oes unrhyw gyfarpar gwaith (a nodwyd fel cyfarpar y mae angen cynnal archwiliad arno) yn gadael yr Awdurdod i'w ddefnyddio gan sefydliad arall, neu, (os cafwyd ef o sefydliad arall) yn cael ei ddefnyddio gan yr Awdurdod, oni bai fod tystiolaeth ffisegol fod yr archwiliad angenrheidiol diwethaf wedi cael ei gynnal.

Gwybodaeth a Cyfarwyddyd

Rhaid i adrannau sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch diogelwch ar gael i'w gweithwyr a, lle bo'n briodol, gyfarwyddiadau ysgrifenedig ar y defnydd o gyfarpar gwaith. Rhaid rhoddi'r deunydd hwn hefyd i'r sawl sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw, goruchwylwyr yn ogystal â gweithredwyr. Rhaid i wybodaeth a chyfarwyddiadau o'r fath fod ar gael yn rhwydd i weithredwyr a rhaid iddynt fedru eu deall a'u defnyddio.

Gall cyfarwyddiadau fod yn rhai gan gyflenwyr, yn ddogfennau mewnol dogfennau neu'n wybodaeth o gyrsiau hyfforddi, gallant fod ar lafar neu ar bapur a gall y fformat amrywio o daflenni gyda chyfarwyddiadau i labeli rhybuddio labeli i lawlyfrau hyfforddi. Mae'r ffurf y cyfarwyddyd felly, yn dibynnu ar gymhlethdod y cyfarpar.

Rhaid i'r wybodaeth a'r cyfarwyddiadau a ddarperir ymdrin â: -

- agweddau iechyd a diogelwch sy'n deillio o'r defnydd o gyfarpar gwaith;
- Unrhyw gyfyngiadau ar y defnydd hwn;
- Unrhyw anawsterau rhagweladwy a allai godi a'r modd o ddelio â hwy.
- Unrhyw ystyriaethau diogelwch pwysig a ddysgwyd o brofiad.

Hyfforddiant

Rhaid i adrannau yn darparu hyfforddiant ar ddulliau diogel o ddefnyddio cyfarpar. Rhaid i hyfforddiant o'r fath gael ei ddarparu ar gyfer goruchwylwyr a rheolwyr yn ogystal â gweithredwyr.

Bydd hyfforddiant yn angenrheidiol: -

- Ar adeg recriwtio;
- Pan fydd technoleg neu offer newydd yn cael ei gyflwyno;
- Os bydd y ffordd o weithio'n newid;
- I bwrpas gloywi.

Bydd natur yr hyfforddiant yn dibynnu ar y swydd, yr offer a phrofiad y gweithiwr a'r prif nod fydd sicrhau cymhwysedd, e.e.

- Rhaid cymryd gofal arbennig wrth hyfforddi a goruchwylio pobl ifanc, gan gymryd i ystyriaeth eu diffyg profiad, diffyg ymwybyddiaeth ac anaeddfedrwydd.
- Ni ddylai cyfarpar gwaith hunanyredig ond gael ei gyrru gan yrwyr cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

Cydymffurfio â gofynion y Gymuned

Rhaid i bob Adran sicrhau bod cyfarpar a ddarperir ar gyfer ei ddefnyddio am y tro cyntaf ers 31 Rhagfyr, 1992 yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwi Peiriannau (Diogelwch) 1982.

Er enghraifft, rhaid i adrannau wirio:

- Bod cyfarwyddiadau gweithredu digonol yn cael eu darparu gyda'r cyfarpar a bod gwybodaeth am beryglon gweddilliol megis sŵn a dirgrynant;
- Bod yr offer wedi cael ei wirio am ddiffygion amlwg;
- Bod y cyfarpar ag arno farc CE a bod tystysgrifau neu'r datganiadau perthnasol ar gael ar ei gyfer.

Dylai cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr hefyd roi arweiniad ar yr hyn y gellir defnyddio darn o gyfarpar ar ei gyfer.

Cyfarpar Ail-Law

Rhaid i gyfarpar ail-law fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mewn rhai achosion, efallai na fydd marc CE arno, ond mae dyletswydd ar y cyflenwr serch hynny i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel a bod cyfarwyddiadau ar gael ar gyfer ei ddefnyddio'n ddiogel. Yn ogystal, mae dyletswydd ar yr awdurdod i sicrhau bod peiriannau ail-law yn:

- Ddiogel;
- Yn addas ar gyfer y gwaith y maent yn ei wneud;
- Yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel.

Rhannau Peryglus o Beiriannau

Mae'n rhaid i risgiau sy'n deillio o beryglon mecanyddol gael eu hasesu a rhaid cymryd mesurau effeithiol i: atal cyswllt gyda rhannau peryglus o beiriannau, e.e. torwyr / llafnau / gwregysau neu unrhyw rannau symudol o'r peiriannau, atal mynediad i rannau peryglus neu i stopio symudiad unrhyw ran beryglus cyn i goes neu fraich unrhyw unigolyn / person fynd i mewn i'r rhan beryglus honno o'r peiriant.

Mae yna hierarchaeth o fesurau i'w cymryd a all fod yn gyfuniad sy'n cynnwys:

- Gwarchodwyr amgáu sefydlog
- Gwarchodwyr neu ddyfeisiau diogelwch eraill
- Cyfarpar diogelu (e.e. jigiau, deiliaid, ffyn gwthio)

- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth.

Rhaid i warchodwyr a dyfeisiau diogelu:

- Fod yn addas a digonol
- Fod o wneuthuriad da, deunydd cadarn sy'n ddigon cryf
- Gael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr gweithio diogel ac effeithlon ac mewn cyflwr da o ran gwaith trwsio
- Fod yn rhai na ellir eu hosgoi neu eu hanablu
- Fod yn ddigon pell o'r rhannau peryglus (h.y. er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion o ran pellteroedd ymestyn diogel)
- Peidio â chyfyngu'n ormodol ar y gallu i weld cylch gweithredu'r peiriant lle mae hynny'n angenrheidiol
- Peidio â chynyddu'r risgiau i iechyd neu ddiogelwch yn enwedig pan fydd gwaith cynnal a chadw, addasu neu archwiliad ar y gweill

Tymheredd

Rhaid asesu'r risg sy'n gysylltiedig â chyswllt gyda chyfarpar gwaith neu rannau o gyfarpar gwaith neu eitemau / sylweddau ynddo sy'n boeth neu'n oer iawn yn enwedig lle nad oes modd, neu lle byddai'n anymarferol, i ddefnyddio mesurau peirianyddol i reoli'r risg. Mae'n rhaid ystyried dulliau gwarchod eraill, e.e. defnyddio cyfarpar diogelu personol (menig gwrthsefyll gwres), hyfforddiant a goruchwyliaeth, cyfarwyddiadau gweithredu ac arwyddion rhybuddio.

Dulliau i Stopio Cyfarpar

Nod dulliau stopio yw dod â chyfarpar i gyflwr diogel mewn modd diogel. Efallai na fydd gweithredu'r dull stopio'n golygu bod y cyfarpar yn stopio ar unwaith. Am resymau gweithredol a diogelwch efallai y bydd angen i'r cyfarpar redeg at ddiwedd ei gylch gweithredu, dad-weithredu neu bweru i lawr; gall hyn gymryd peth amser.

Rhaid i'r ddyfais ar gyfer stopio cyfarpar mewn argyfwng fod o fewn cyrraedd i'r gweithredwr mewn amgylchiadau lle nad yw mesurau diogelwch eraill yn ddigonol i atal perygl. Bwriedir iddynt fod ar gael i ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus. Ni ddylid eu defnyddio i stopio'r cyfarpar yn ystod ei weithrediad arferol, ac mae'n rhaid iddynt gael blaenoriaeth dros y dulliau sydd ar gael i gychwyn a gweithredu'r cyfarpar.

Lle mae dulliau'n cael eu darparu i reoli cychwyn, stopio a stopio'r cyfarpar mewn argyfwng, rhaid iddynt fod yn holl weithredol a chael eu cynnal a'u cadw. Dylai'r offer rheoli fod yn hawdd i'w weld a'i gyrraedd ond dylai hefyd fod wedi ei gynllunio'n ergonomaidd er mwyn atal rhywun rhag ei roi ymlaen yn ddamweiniol. Dylid medru gweld yn hawdd yr hyn y mae pob teclyn rheoli yn ei wneud ac i ba un o swyddogaethau'r cyfarpar y mae'n berthnasol.

Ynysu

Lle mae'n briodol, bydd modd ynysu mewn modd addas, unrhyw gyfarpar gwaith sy'n cael ei bweru o ffynonellau ynni, fel y gellir ei wneud yn ddiogel ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu addasu neu os bydd cyflwr yn datblygu sy'n golygu ei fod yn beryglus, e.e. gorboethi. Yn achos rhai mathau o gyfarpar gellir ei ynysu yn syml drwy dynnu'r plwg o'r soced cyflenwad trydan. Efallai y bydd angen gweithredu switsh neu falf ynysu o bell yn achos mathau eraill o gyfarpar.

Er mwyn sicrhau bod modd ailgysylltu'r cyfarpar yn ddiogel, efallai y bydd angen cloi'r switsh neu'r falf, e.e. pan fydd yn cael ei gynnal a'i gadw neu ei lanhau. Ni ddylai dyfeisiau stopio mewn argyfwng gael eu defnyddio yn unig fel modd o ynysu offer er mwyn addasu, gwasanaethu neu gynnal a chadw'r cyfarpar neu'r peiriant.

Sefydlogrwydd

Lle mae'n briodol, dylid sicrhau bod cyfarpar gwaith yn sefydlog trwy ei roi'n sownd i'r ddaear, ei glampio neu ei glymu, e.e. dylai ystolion gael eu clymu neu eu diogelu pan yn cael eu defnyddio. Dylai'r rhan fwyaf o beiriannau a ddefnyddir mewn safle sefydlog gael eu bolltio neu eu clymu i lawr mewn modd arall. Gellir gwneud rhai mathau o offer symudol yn fwy sefydlog, e.e. trwy ddefnyddio sadwyr ar sgaffaldiau twr symudol neu MEWPS. Rhaid i silindrau nwy a manifffoldiau gael eu cadwyno, eu diogelu neu eu gwarchod i'w hatal er enghraifft rhag troi drosodd neu daro rhywbeth.

Goleuadau

Dylai goleuadau yn y gweithle fod yn addas ac yn ddigonol ar gyfer y tasgau gwaith. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod drwy gyfrwng goleuadau amgylchynol, fodd bynnag, os yw tasgau'n cynnwys gwneud gwaith manwl, dylid darparu goleuadau 'lleol' ychwanegol. Efallai hefyd y bydd angen darparu goleuadau dros dro ar gyfer eu defnyddio wrth wneud gwaith cynnal a chadw, adeiladu neu waith trwsio, e.e. drwy lampau symudol, tortshis neu generaduron.

Marciau

Rhaid marcio offer gwaith yn glir neu ddarparu cyfarwyddiadau a lliwiau y mae modd eu gweld yn glir ac sy'n briodol i rybuddio am beryglon iechyd a diogelwch, e.e. rhaid i olwyn sgraffiniol gael ei marcio gyda'i uchafswm cyflymder cylchdro, silindrau nwy a phibellau gwasanaeth yn cael eu codio â lliw a'u marcio gyda pwysau a cyfeiriad y llif.

Rhybuddion

Lle mae risgiau i iechyd a diogelwch yn parhau ar ôl gweithredu mesurau rheoli eraill, efallai y bydd yn briodol defnyddio rhybuddion neu ddyfeisiau rhybuddio, fel arfer ar ffurf hysbysiad neu debyg, gan roi:

- Cyfarwyddyd cadarnhaol, e.e. rhaid gwisgo offer gwarchod clyw

- Gwahardd, e.e. dim ysmegu / dim mynediad
- Rhybudd cyfyngiad, e.e. peidiwch â gwresogi uwch na 60 ° C
- Mae'n rhaid i arwyddion gydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch 1996 (Arwyddion a Signalau Diogelwch)
- Gall signalau clywadwy hefyd fod yn briodol ac weithiau maent yn safonol, e.e. larymau bagio clywadwy ar gerbydau

Camddefnyddio

Mae camddefnyddio offer yn fwriadol neu wneud gwaith addasu iddo heb awdurdod yn beryglus ac yn rhywbeth a waherddir yn llwyr. Bydd gweithredu yn y fath fodd yn arwain at achos disgyblu.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar 01248 752820.